



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
43/2026
DYDDIAD CYHOEDDI:
11/03/2026

Arolwg canfyddiadau a chamau gweithredu newid hinsawdd: allbynnau cam 3 yr arolwg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Arolwg canfyddiadau a chatau gweithredu newid Hinsawdd:
allbynnau cam 3 yr arolwg

Awdur: Colin Wright

Adroddiad Ymchwil Llawn: Wright, C (2026). *Arolwg Canfyddiadau a Chatau Gweithredu Newid Hinsawdd: Allbynnau cam 3 yr arolwg*. Caerdydd:, Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 43/2026.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/arolwg-canfyddiadau-chatau-gweithredu-newid-hinsawdd-cam-3-4>

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Enw: Louisa Smith

Is-adran: Y Tîm Ymchwil Hinsawdd ac Amgylchedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilHinsawddacAmgylchedd@llyw.cymru

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	8
	Cynllun yr holiadur	8
	Gwaith maes	8
	Nodweddion y sampl	9
	Adroddiad methodoleg	9
	Dull a strwythur yr adroddiad	9
2.	Canfyddiadau ac Agweddau	11
	Achosion newid hinsawdd	11
	Pryderon am newid hinsawdd	11
	Cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â newid hinsawdd	13
	Camau gweithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd	15
	Cyfrifoldeb personol a chamau gweithredu	15
	Gwybodaeth	18
	Tywydd eithafol	19
	Canfyddiadau ac Agweddau: Crynodeb	20
3.	Ynglŷn â'ch cartref	21
	Defnydd ynni	21
	Camau arbed ynni	21
	Effeithlonrwydd ynni	26
	Ynglŷn â'ch Ynni Cartref Crynodeb	28
4.	Bwyd	29
	Deiet	29
	Gwastraff bwyd	32
	Camau cynaliadwy	33
	Bwyd: Crynodeb	39
5.	Camau bywyd beunyddiol	40
	Bywyd Beunyddiol: Crynodeb	47
6.	Teithio	48
	Argaeledd cerbydau	48
	Dull o deithio	49
	Camau teithio cynaliadwy	52
	Teithio ar wyliau	55
	Teithio: Crynodeb	56

7. Casgliad	58
Atodiad A – Data demograffig Cam 3	60
Oedran yn ôl Dynion a Menywod	60
Oedran yn ôl Math o Ardal	60
Galwedigaeth a Math o Ardal	61
Incwm ac Oedran	63
Incwm a Math o Ardal	63
Galwedigaeth ac Incwm	64
Deiliadaeth a Math o Ardal	66
Deiliadaeth ac Incwm	66
Patrymau Demograffig: Crynodeb	67

Rhestr tablau

Tabl 2.1 – Ymateb i ‘Beth ydych chi’n credu sy’n achosi newid hinsawdd?’	11
Tabl 2.2 – Ymateb i ‘I ba raddau ydych chi’n credu bod newid hinsawdd yn broblem ar hyn o bryd?’	11
Tabl 2.3 – Ymateb i ‘Pa mor bryderus ydych chi’n bersonol am newid hinsawdd?’	12
Tabl 2.4 – Ymateb i ‘Pa mor bryderus ydych chi’n bersonol am newid hinsawdd?’	12
Tabl 2.5 – Ymateb cyfrifol iawn / â rhywfaint o gyfrifoldeb yn ôl oedran i – ‘I ba raddau ydych chi’n credu bod y canlynol yn gyfrifol am fynd i’r afael â newid hinsawdd?’	14
Tabl 2.6 – Ymateb cyfrifol iawn / â rhywfaint o gyfrifoldeb yn ôl math o ardal – ‘I ba raddau ydych chi’n credu bod y canlynol yn gyfrifol am fynd i’r afael â newid hinsawdd?’ ..	14
Tabl 2.7 – Ymateb i – ‘Faint ydych chi’n ei wybod am y canlynol?’	19
Tabl 3.1 – Ymateb i – ‘A oes gennych fesurydd clyfar yn eich cartref?’	21
Tabl 3.2 – Ymatebion fesul incwm aelwyd i – ‘A ydych chi wedi cymryd unrhyw un o’r camau canlynol i leihau eich defnydd ynni?’	24
Tabl 3.3 – Ymatebion fesul incwm aelwyd i – ‘A ydych chi wedi cymryd unrhyw un o’r camau canlynol i leihau eich defnydd ynni?’	25
Tabl 3.4 – Ymateb yn ôl maint y newid hinsawdd fel problem i – ‘Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o’r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?’	25
Tabl 3.5 – Ymateb yn ôl pryder am newid hinsawdd i – ‘Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o’r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?’	26
Tabl 4.1 – Ymateb i – ‘Sawl diwrnod yr wythnos ydych chi fel arfer yn bwyta pob un o’r pethau canlynol?’	29
Tabl 4.2 – Ymateb yn ôl maint y newid hinsawdd fel problem i – ‘A ydych chi wedi gwneud unrhyw un o’r newidiadau canlynol i’ch diet?’	31
Tabl 4.3 – Ymateb yn ôl pryder am newid hinsawdd i – ‘A ydych chi wedi gwneud unrhyw un o’r newidiadau canlynol i’ch diet?’	32
Tabl 4.4 – Ymateb i achos newid hinsawdd – ‘A ydych chi yn gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth siopa bwyd neu goginio prydau bwyd?’	37
Tabl 4.5 – Ymateb yn ôl maint newid hinsawdd fel problem i – ‘A ydych chi yn gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth siopa bwyd neu goginio prydau bwyd?’	38
Tabl 4.6 – Ymateb yn ôl pryder am newid hinsawdd i – ‘A ydych chi yn gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth siopa bwyd neu goginio prydau bwyd?’	38
Tabl 5.1 – Ymateb yn ôl achos newid hinsawdd i – ‘Nawr hoffem ofyn i chi am bethau y gallech eu gwneud yn eich bywyd beunyddiol. Atebwch drosoch chi eich hun, nid dros eich teulu. Ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol?’	45

Tabl 5.2 – Ymateb yn ôl graddfa newid hinsawdd fel problem i -‘Nawr hoffem ofyn i chi am bethau y gallech chi eu gwneud yn eich bywyd beunyddiol. Atebwch drosoch chi eich hun, nid dros eich teulu. Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?’	46
Tabl 5.3 – Ymateb yn ôl pryder am newid hinsawdd i - ‘Nawr hoffem ofyn i chi am bethau y gallech eu gwneud yn eich bywyd beunyddiol. Atebwch drosoch chi eich hun, nid dros eich teulu. Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol?’	47
Tabl 6.1 – Ymateb yn ôl incwm yr aelwyd i – ‘Faint o gerbydau sydd gan eich aelwyd fynediad rheolaidd atynt?’ Car	48
Tabl 6.2 – Ymateb yn ôl incwm aelwyd ar gyfer aelwydydd sydd â mynediad at o leiaf un car / fan i – ‘O'r cerbydau y mae gan eich aelwyd fynediad atynt, faint sy'n drydanol a/neu hybrid?’	49
Tabl 6.3 – Ymateb yn ôl oedran i – ‘Pa mor aml ydych chi'n defnyddio pob un o'r canlynol i deithio o un lle i'r llall?’ Beic (safonol).....	51
Tabl 6.4 – Ymateb yn ôl achos newid hinsawdd i - ‘A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o un lle i'r llall?’	54
Tabl 6.5 – Ymateb yn ôl maint newid hinsawdd fel problem - ‘A ydych yn gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o un lle i'r llall?’	54
Tabl 6.6 – Ymateb yn ôl pryder am newid hinsawdd i - ‘A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o un lle i'r llall?’	55

Rhestr ffigurau

Ffigur 2.1 – Ymateb i – ‘I ba raddau ydych chi’n credu bod y canlynol yn cymryd camau i fynd i’r afael â newid hinsawdd?’	15
Ffigur 2.2 – Ymateb i – ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’	16
Ffigur 2.3 – Ymateb i – ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’	17
Ffigur 2.4 – Ymateb i – ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’ ac ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?’	18
Ffigur 2.5 – Ymateb i – ‘Ydych chi wedi profi unrhyw un o’r canlynol yn ystod y pum mlynedd diwethaf?’	19
Ffigur 3.1 – Ymatebion i – ‘A ydych chi wedi cymryd unrhyw un o’r camau canlynol i leihau eich defnydd ynni?’	23
Ffigur 3.2 – Ymateb yn ôl incwm aelwyd i – ‘Isod ceir rhestr o fesurau effeithlonrwydd ynni eraill. Pa rai, os o gwbl, sydd gennych chi yn eich cartref?’	27
Ffigur 4.1 – Ymateb i – ‘Pa mor aml mewn wythnos arferol y mae angen i’ch aelwyd daflu bwyd sydd wedi mynd yn ddrwg neu wedi mynd heibio ei ddyddiad defnyddio olaf?’	32
Ffigur 4.2 – Ymateb i – ‘A ydych yn gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth siopa bwyd neu goginio prydau bwyd?’	34
Ffigur 4.3 – Ymateb yn ôl math o ardal i – ‘A ydych yn gwneud unrhyw un o’r canlynol wrth siopa bwyd neu goginio prydau bwyd?’	36
Ffigur 5.1 – Ymateb i - ‘Nawr hoffem ofyn i chi am bethau y gallech eu gwneud yn eich bywyd beunyddiol. Atebwch drosoch chi eich hun, nid dros eich teulu. Ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol?’	41
Ffigur 5.2 – Ymateb yn ôl incwm yr aelwyd i - ‘Nawr hoffem ofyn i chi am bethau y gallech eu gwneud yn eich bywyd beunyddiol. Atebwch drosoch chi eich hun, nid dros eich teulu. Ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol?’	42
Ffigur 5.3 – Ymateb yn ôl ardal i - ‘Nawr hoffem ofyn i chi am bethau y gallech eu gwneud yn eich bywyd beunyddiol. Atebwch drosoch chi eich hun, nid dros eich teulu. Ydych chi’n gwneud unrhyw un o’r canlynol?’	44
Ffigur 6.1 – Ymateb i – ‘Pa mor aml ydych chi’n defnyddio pob un o’r canlynol i deithio o un lle i’r llall?’	50

Ffigur 6.2 – Ymateb i – ‘A ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r canlynol wrth deithio o un lle i'r llall?’	53
Ffigur 6.3 – Ymateb yn ôl incwm aelwyd i – ‘Yn ystod y 12 mis diwethaf, faint o'r mathau canlynol o wyliau, os o gwbl, ydych chi wedi'u cymryd?’	56
Ffigur A.1 – Ymateb yn ôl dynion a menywod i – ‘I ba grŵp oedran ydych chi'n perthyn?’ ...	60
Ffigur A.2 – Ymateb yn ôl math o ardal i – ‘I ba grŵp oedran ydych chi'n perthyn?’	61
Ffigur A.3 – Ymateb yn ôl math o ardal i – ‘Nodwch i ba grŵp galwedigaethol y mae'r prif enillydd incwm (y person â'r incwm mwyaf) yn eich aelwyd yn perthyn’	62
Ffigur A.4 – Ymateb yn ôl oedran i – ‘Nodwch incwm bras eich aelwyd y flwyddyn (cyn treth ac unrhyw ddiidyniadau eraill)?	63
Ffigur A.5 – Ymateb yn ôl math o ardal – ‘Nodwch incwm bras eich aelwyd y flwyddyn (cyn treth ac unrhyw ddiidyniadau eraill)?	64
Ffigur A.6 – Ymateb yn ôl galwedigaeth i – ‘Nodwch incwm bras eich aelwyd y flwyddyn (cyn treth ac unrhyw ddiidyniadau eraill)?	65
Ffigur A.7 – Ymateb yn ôl math o ardal i – ‘A yw eich aelwyd yn berchen ar eich llety neu'n ei rentu?’	66
Ffigur A.8 – Ymateb yn ôl incwm aelwyd i – ‘A yw eich aelwyd yn berchen ar eich llety neu'n ei rentu?’	67

Geirfa

Sero Net

Lle mae'r nwyon tŷ gwydr a gymerir o'r atmosffer yn cydbwysu â'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu hallyrru ([Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd Gweithredu ar Newid Hinsawdd 2023-26](#)).

Addasu i'r Hinsawdd

Rhagweld y risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o newid hinsawdd a sicrhau ein bod yn gwneud y gwaith sydd ei angen i sicrhau ein bod wedi paratoi'n dda ([Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd Gweithredu ar Newid Hinsawdd 2023-26](#)).

Argyfwng Natur

Mae 17% o 3,902 o rywogaethau a astudiwyd yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu, gyda llawer o rai eraill yn dirywio. Mae newidiadau tywydd a thymheredd yn ei gwneud hi'n anoddach i lawer o anifeiliaid a phlanhigion oroesi ([Gweithredu ar Newid Hinsawdd](#)).

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r allbynnau o'r cyntaf o chwe cham yr arolwg meintiol Canfyddiadau a Chantau Gweithredu Newid Hinsawdd o aelwydydd yng Nghymru. Comisiynwyd yr arolwg hwn gan Lywodraeth Cymru i ddeall agweddau ac ymddygiadau yn gysylltiedig â lleihau allyriadau carbon. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn cyfrannu at ddull Llywodraeth Cymru o newid ymddygiad a chymdeithas ac yn hysbysu datblygiad a phenderfyniadau polisi yn y dyfodol o ran datgarboneiddio.
- 1.2 Bydd nodau'r ymchwil yn cael eu bodloni drwy ymchwil gynradd gydag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru dros chwe cham chwe-misol, â tharged o 1,000 o ymatebion fesul cam.
- 1.3 Mae [Adroddiad Allbynnau Arolwg Cam 1](#) yn rhoi mwy o fanylion am gefndir yr arolwg.

Cynllun yr holiadur

- 1.4 Datblygwyd yr holiadur gan WSP, Accent a Llywodraeth Cymru.
- 1.5 Cynlluniwyd yr holiadur i ganiatáu olrhain agweddau ac ymddygiadau mewn camau yn y dyfodol ac fe'i strwythurwyd i gwmpasu'r chwe maes canlynol:
 - 1.1 Ynglŷn â chi a'ch aelwyd
 - 1.2 Eich canfyddiadau a'ch agweddau
 - 1.3 Ynglŷn â'ch ynni cartref
 - 1.4 Bwyd
 - 1.5 Bywyd beunyddiol
 - 1.6 Teithio
- 1.6 Mireiniwyd yr holiadur yn dilyn profion gwybyddol ac arolwg peilot.
- 1.7 Mae'r holiadur terfynol a ddefnyddiwyd ar gyfer Cam 3 wedi'i gynnwys yn [Atodiad](#).

Gwaith maes

- 1.8 Gwnaed gwaith maes Cam 3 rhwng dydd Llun 19 Awst a dydd Llun 23 Medi 2024.
- 1.9 Cwblhawyd 939 o arolygon, 563 ar-lein a chwblhawyd 376 wyneb yn wyneb ar garreg y drws. Cwblhawyd 10 arolwg yn y Gymraeg. Y gyfradd ymateb gyffredinol (yr holl arolygon wedi'u cwblhau i gardiau post) oedd 6.9%.

Nodweddion y sampl

- 1.10 Cymharwyd nodweddion demograffig y sampl â setiau data cenedlaethol ar gyfer Cymru, e.e. [Cyfrifiad 2021](#), i sicrhau bod y sampl yn gynrychiadol o'r boblogaeth ehangach. Roedd cwestiynau demograffig yn cwmpasu oedran, rhywedd, ethnigrwydd, lleoliad, statws gwaith, galwedigaeth, incwm aelwyd, math o eiddo, a deiliadaeth.
- 1.11 Mae cymariaethau yn dynodi bod y sampl yn gyffredinol gynrychiadol o boblogaeth Cymru. Mae allbynnau'r arolwg yn gymaradwy â'r allbynnau o setiau data cenedlaethol ar gyfer oedran, rhyw, ethnigrwydd, statws gwaith, incwm aelwyd, a galwedigaeth. Gwelwyd mân amrywiadau rhwng data'r arolwg a setiau data cenedlaethol ar gyfer lleoliad, galwedigaeth, deiliadaeth, a math o eiddo.

Adroddiad methodoleg

- 1.12 Darperir rhagor o fanylion ddyluniad a chyfyngiadau'r arolwg yn [Adroddiad Methodoleg Cam 3 a 4](#) gan gynnwys cymharu nodweddion demograffig sampl yr arolwg yn erbyn data Cyfrifiad 2021 a setiau data cenedlaethol.

Dull a strwythur yr adroddiad

- 1.13 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r allbynnau allweddol o'r trydydd o chwe cham arfaethedig yr arolwg. Felly, mae'r allbynnau yn dangos y sefyllfa bresennol, gan nodi unrhyw wahaniaethau nodedig mewn ymatebion wrth ddadgyfuno'r sampl. Nid yw'r adroddiad yn rhoi manylion yr ymatebion i bob un cwestiwn, ond mae'n cyflwyno crynodeb lefel uchel o allbynnau allweddol.
- 1.14 Mae'r holl allbynnau yn dangos ymatebion heb eu pwysoli ac felly ni ellir eu cymryd yn ystadegol i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd, ond mae'r ymatebwyr yn gyfunol yn gyffredinol gynrychiadol o'r boblogaeth honno yn ôl newidynnau demograffig allweddol.
- 1.15 Er mwyn sicrhau tryloywder ynghylch ansawdd data, mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at gyfyngiadau canlyniadau a dynnwyd o feintiau sylfaen bach. Mae amcangyfrifon yn seiliedig ar lai na 30 o ymatebwyr wedi'u cynnwys yn y tablau ond dylid eu dehongli'n ofalus, gan y gall samplau mor fach gynhyrchu canrannau ansefydlog nad ydynt o bosibl yn adlewyrchu patrymau ehangach. Yn dilyn

confensiwn ystadegol a ddefnyddir yn gyffredin¹, adroddir canlyniadau is-grŵp â seiliau o dan 30 ond cânt eu nodi yn y tablau, ac ni ddylid eu gor-ddehongli.

- 1.16 Roedd y dadansoddiad yn cynnwys grwpio'r ymddygiadau o fewn adrannau ynni cartref, bwyd, bywyd beunyddiol, a theithio'r arolwg yn ôl eu heffaith carbon (effaith uwch yn erbyn effaith is). Gellir dod o hyd i esboniad o'r categorïau hyn ym mhob un o'r adrannau perthnasol o'r adroddiad.
- 1.17 Mae dadansoddiad o ddata demograffig cam 3, gan nodi'r perthnasoedd rhwng y gwahanol nodweddion demograffig, wedi'i gynnwys yn Atodiad A - Data demograffig Cam 3. Mae'r atodiad yn cynnwys yr allbwn canlynol:
- oedran yn ôl dynion a menywod
 - oedran yn ôl math o ardal
 - galwedigaeth yn ôl math o ardal
 - incwm ac oedran
 - incwm a math o ardal
 - galwedigaeth ac incwm
 - deiliadaeth a math o ardal
 - deiliadaeth ac incwm
- 1.18 Mae'r allbynnau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i ddadansoddiad deunewidyn a gynhaliwyd ar ymatebion yr arolwg.
- 1.19 Mae'r camau wedi'u hamserlennu i wneud gwaith maes bob yn ail rhwng yr haf a'r gaeaf, er mwyn cofnodi unrhyw wahaniaethau tymhorol posibl mewn ymatebion. Mae [Adroddiad Cymharu'r Cam 4](#) yn dangos newidiadau mewn agweddau ac ymatebion ymddygiadol ar draws y 4 cam cyntaf.
- 1.20 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn.
- 1.7 Adran 2 – Canfyddiadau ac agweddau
 - 1.8 Adran 3 – Ynglŷn â'ch cartref
 - 1.9 Adran 4 – Bwyd
 - 1.10 Adran 5 – Bywyd beunyddiol
 - 1.11 Adran 6 – Teithio
 - 1.12 Adran 7 – Casgliadau

¹ Kwak SG, Kim JH. Central limit theorem: the cornerstone of modern statistics. *Korean J Anesthesiol.* 2017;70(2):144-156. [PubMed](#)

2. Canfyddiadau ac Agweddau

2.1 Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn trafod barn yr ymatebwyr ar newid hinsawdd.

Achosion newid hinsawdd

2.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oeddent yn credu oedd yn achosi newid hinsawdd. Dywedodd 48% o'r ymatebwyr eu bod yn credu bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n bennaf gan weithgareddau dynol, gyda 16% yn dweud eu bod yn credu ei fod yn cael ei achosi'n gyfan gwbl gan weithgareddau dynol (Tabl 2.1). Dim ond 1% a ddywedodd nad ydynt yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd, gyda 4% yn dweud eu bod yn credu ei fod yn cael ei achosi'n gyfan gwbl gan brosesau naturiol.

Tabl 2.1 – Ymateb i ‘Beth ydych chi’n credu sy’n achosi newid hinsawdd?’

Pryder	Pob un
Dydwi i ddim yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd	1%
Yn gyfan gwbl drwy brosesau naturiol	4%
Yn bennaf drwy brosesau naturiol (ond mae gweithgareddau dynol hefyd yn cyfrannu)	13%
Yn gyfartal drwy brosesau naturiol a gweithgareddau dynol	18%
Yn bennaf drwy weithgareddau dynol (ond mae prosesau naturiol hefyd yn cyfrannu)	48%
Yn gyfan gwbl drwy weithgareddau dynol	16%

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Ddim yn siŵr/ Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’u heithrio. Sylfaen = 902

Pryderon am newid hinsawdd

2.3 Gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio ar raddfa o 1 i 10 (1 = ddim yn ddifrifol, 10 = hynod ddifrifol), a oeddent yn credu bod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol ar hyn o bryd. Dewisodd 36% o'r ymatebwyr naill ai 9 neu 10, a dewisodd 78% 6 neu'n uwch (Tabl 2.2). Dim ond 6% o'r ymatebwyr a ddewisodd 1 neu 2.

Tabl 2.2 – Ymateb i ‘I ba raddau ydych chi’n credu bod newid hinsawdd yn broblem ar hyn o bryd?’

Pryder	Pob un
1-2 Ddim yn ddifrifol	6%
3-5	15%
6-8	42%
9-10 Difrifol iawn	36%

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Ddim yn siŵr/ Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’u heithrio. Sylfaen = 912

2.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor bryderus oeddent yn bersonol ynghylch newid hinsawdd. Dywedodd 24% o'r ymatebwyr eu bod yn bryderus iawn ynghylch newid hinsawdd, dywedodd 44% eu bod yn eithaf pryderus, dywedodd 21% nad oeddent yn poeni llawer, a dywedodd 11% nad oeddent yn poeni o gwbl (Tabl 2.3).

Tabl 2.3 –Ymateb i ‘Pa mor bryderus ydych chi’n bersonol am newid hinsawdd?’

Pryder	Pob un
Ddim yn bryderus o gwbl	11%
Ddim yn bryderus iawn	21%
Eithaf pryderus	44%
Pryderus iawn	24%

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Ddim yn siŵr/ Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’u heithrio. Sylfaen = 915

- 2.5 Mae cysgasglu’r categorïau ymateb i bryderus iawn / eithaf pryderus a ddim yn bryderus iawn / ddim o gwbl yn darparu allbwn symlach. Yna mae'r ymatebion wedi’u dadgyfuno yn ôl oedran.
- 2.6 Ymatebwyr 65 oed a throsodd oedd y lleiaf pryderus am newid hinsawdd (Tabl 2.4). Dywedodd 59% o'r ymatebwyr 65 oed a throsodd eu bod yn bryderus iawn / yn eithaf pryderus am newid hinsawdd, o'i gymharu â 67 i 75% mewn categorïau oedran eraill. Yr ymatebwyr rhwng 18 a 35 oed oedd fwyaf pryderus am newid hinsawdd.

Tabl 2.4 – Ymateb i ‘Pa mor bryderus ydych chi’n bersonol am newid hinsawdd?’

Pryder	Pob un	Rhwng 18 oed a 34 oed	Rhwng 35 oed a 44 oed	Rhwng 45 oed a 54 oed	Rhwng 55 oed a 64 oed	65+ oed
Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn bryderus o gwbl	32%	25%	30%	33%	30%	41%
Pryderus iawn / Eithaf pryderus	68%	75%	70%	67%	70%	59%

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’u heithrio. Sylfaen = 913 (Rhwng 18 oed a 34 oed = 213, rhwng 35 oed a 44 oed = 153, rhwng 45 oed a 54 oed = 147, rhwng 55 oed a 64 oed = 162, 65+ oed = 218)

Cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â newid hinsawdd

- 2.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor gyfrifol yw grwpiau penodol am fynd i'r afael â newid hinsawdd. Y grwpiau oedd y cyhoedd, y gymuned leol, y cyngor lleol, busnesau, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a gwledydd y tu allan i'r DU. Ar gyfer pob grŵp, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn credu bod pob grŵp yn 'hynod gyfrifol', 'braidd yn gyfrifol', 'ddim yn gyfrifol iawn' neu 'ddim yn gyfrifol o gwbl'. Mae cyfuno'r categorïau ymateb yn hynod / braidd yn gyfrifol ac nid yn gyfrifol iawn / ddim o gwbl yn darparu allbwn symlach. Mae cydgasglu'r categorïau ymatebion yn gyfrifol iawn / rhywfaint o gyfrifoldeb a ddim yn gyfrifol iawn / ddim yn gyfrifol o gwbl yn rhoi allbwn wedi'i symleiddio.
- 2.8 Gellir cymharu cyfran yr ymatebion cyfrifol iawn / rhywfaint o gyfrifoldeb rhwng grwpiau wedyn (Tabl 2.5). Ar draws pob grŵp oedran, dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr fod pob grŵp yn gyfrifol iawn neu â rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Dywedodd cyfran is o ymatebwyr bod eu cymuned leol (66%) a'r cyhoedd (73%) yn gyfrifol iawn neu â rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd o'u cymharu â busnesau (90%), a Llywodraeth Cymru (88%) a'r Llywodraeth y DU (90%), a gwledydd y tu allan i'r DU (93%).
- 2.9 Roedd cyfran yr ymatebwyr 65 oed a throsodd a ddywedodd fod y cyhoedd (65%) a'r gymuned leol (57%) yn gyfrifol iawn / â rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd, yn is nag ar gyfer yr holl grwpiau oedran eraill. Dywedodd ymatebwyr rhwng 18 oed a 34 oed a 35 oed i 44 oed fod gan bob grŵp fwy o gyfrifoldeb am fynd i'r afael â newid hinsawdd na'r categorïau oedran hŷn.

Tabl 2.5 – Ymateb cyfrifol iawn / â rhywfaint o gyfrifoldeb yn ôl oedran i – ‘I ba raddau ydych chi’n credu bod y canlynol yn gyfrifol am fynd i’r afael â newid hinsawdd?’

Grŵp	Pob un	Rhwng 18 oed a 34 oed	Rhwng 35 oed a 44 oed	Rhwng 45 oed a 54 oed	Rhwng 55 oed a 64 oed	65+ oed
Y cyhoedd	73%	76%	79%	74%	69%	65%
Cymuned leol	66%	70%	73%	64%	65%	57%
Eich cyngor	82%	88%	85%	83%	78%	74%
Busnesau	90%	94%	91%	86%	89%	86%
Llywodraeth Cymru	88%	92%	90%	87%	88%	82%
Llywodraeth y DU	90%	93%	93%	89%	88%	87%
Gwledydd y tu allan i'r DU	92%	91%	95%	92%	89%	92%

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’u heithrio o’r holl ymatebion. Sylfaen = 871 - 894 (ar gyfer yr holl ymatebwyr, mae’r niferoedd yn amrywio oherwydd eithrio ‘Ddim yn Gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf i beidio â dweud’)

2.10 Yn ôl math o ardal, dywedodd cyfran is o ymatebwyr sy’n byw yng nghefn gwlad neu mewn pentref bach fod y cyhoedd (73% a 67% yn y drefn honno), eu cymuned leol (66% a 62%) a’u cyngor (83% a 77%) yn gyfrifol iawn / â rhywfaint o gyfrifoldeb am fynd i’r afael â newid hinsawdd, o’u cymharu ag ymatebwyr sy’n byw mewn mathau eraill o ardaloedd (Tabl 2.6).

Tabl 2.6 – Ymateb cyfrifol iawn / â rhywfaint o gyfrifoldeb yn ôl math o ardal – ‘I ba raddau ydych chi’n credu bod y canlynol yn gyfrifol am fynd i’r afael â newid hinsawdd?’


Grŵp	Pob un	Canol dinas neu dref fawr	Maestrefi dinas neu dref fawr	Pentref mawr neu dref fach	Cefn gwlad neu bentref bach
Y cyhoedd	73%	82%	76%	67%	73%
Cymuned leol	66%	74%	67%	62%	66%
Eich cyngor	82%	91%	86%	77%	83%
Busnesau	90%	95%	91%	88%	85%
Llywodraeth Cymru	88%	93%	87%	87%	85%
Llywodraeth y DU	90%	92%	90%	89%	88%
Gwledydd y tu allan i'r DU	92%	94%	93%	91%	90%

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’u heithrio o’r holl ymatebion. Sylfaen = 861 - 884 (ar gyfer yr holl ymatebwyr, mae’r niferoedd yn amrywio oherwydd eithrio ‘Ddim yn Gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf i beidio â dweud’)

Camau gweithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd

- 2.11 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oedd y grwpiau'n cymryd camau i atal newid hinsawdd.
- 2.12 Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr fod pob grŵp yn cymryd rhywfaint o gamau, ond gallai gymryd mwy, ar wahân i 'wledydd y tu allan i'r DU', lle nododd bron i hanner yr ymatebwyr (49%) yr ymateb hwn (Ffigur 2.1). Ar gyfer pob grŵp, dywedodd lleiafrif bach o ymatebwyr eu bod yn cymryd llawer o gamau (5 – 12%). Y ddau grŵp y dywedodd y gyfran uchaf o ymatebwyr eu bod yn cymryd llawer o gamau gweithredu oedd Llywodraeth Cymru (11%) a Llywodraeth y DU (12%). (Ffigur 2.1). Y grwpiau y dywedodd y gyfran fwyaf o ymatebwyr nad oeddent yn cymryd llawer o gamau gweithredu oedd gwledydd y tu allan i'r DU (46%), y gymuned leol (42%) a busnesau (41%).

Ffigur 2.1 – Ymateb i – ‘I ba raddau ydych chi'n credu bod y canlynol yn cymryd camau i fynd i'r afael â newid hinsawdd?’




Disgrifiad o Ffigur 2.1: siart colofn yn dangos i ba raddau roedd ymatebwyr yn meddwl bod grwpiau penodol yn cymryd camau i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gennyf beidio â dweud' wedi'u heithrio o'r holl ymatebion. Sylfaen = 794-877

Cyfrifoldeb personol a chamau gweithredu

- 2.13 Gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio o 1 (ddim o gwbl) i 10 (llawer iawn) os oeddent yn teimlo cyfrifoldeb personol dros atal newid hinsawdd rhag gwaethygu. Dywedodd 24% eu bod yn teimlo cyfrifoldeb uchel (rheng 9 a 10), tra bod 12% yn dweud eu bod yn teimlo cyfrifoldeb isel (sgôr o 1 a 2); Ffigur 2.2).

Ffigur 2.2 – Ymateb i – “I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?”




Disgrifiad o Ffigur 2.2: siart colofn yn dangos i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn credu bod ganddynt gyfrifoldeb i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu.

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’i eithrio o’r holl ymatebion. Sylfaen = 934

- 2.14 Gofynnwyd i ymatebwyr sgorio o 1 (ddim o gwbl) i 10 (llawer iawn) os oeddent yn teimlo y gallai eu gweithredoedd personol atal newid hinsawdd rhag gwaethygu. Dywedodd 12% eu bod yn teimlo'n gryf (sgôr o 9 a 10) y gallai eu gweithredoedd atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, tra bod 21% yn dweud eu bod yn teimlo na allai eu gweithredoedd atal newid hinsawdd rhag gwaethygu (sgôr o 1 a 2; Ffigur 2.3). Roedd 33% arall o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo na allent atal newid hinsawdd rhag gwaethygu (sgôr o 3 i 5).

Ffigur 2.3 – Ymateb i – ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu’




Disgrifiad o Ffigur 2.3: siart colofn yn dangos i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn credu bod ganddynt gyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu.

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’i eithrio o’r holl ymatebion. Sylfaen = 936

- 2.15 Mae cymhariaeth o'r ymatebion i'r cwestiwn ar gyfrifoldeb personol a chred mewn gweithredoedd personol yn dangos anghysondeb rhwng y graddau y teimlai pobl gyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, a'r graddau y teimlai pobl y gallai eu gweithredoedd personol eu hunain helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu. Dywedodd 24% eu bod yn teimlo cyfrifoldeb uchel (sgôr o 9 a 10) tra mai dim ond 12% a ddywedodd eu bod yn teimlo'n gryf (sgôr o 9 a 10) y gallai eu gweithredoedd atal newid hinsawdd (Ffigur 2.4).

Ffigur 2.4 – Ymateb i – “I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu?” ac ‘I ba raddau ydych chi’n teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu’



Disgrifiad o Ffigur 2.4: siart colofn yn dangos i ba raddau roedd ymatebwyr yn meddwl bod ganddynt gyfrifoldeb i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, ac i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn credu bod ganddynt gyfrifoldeb i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu.

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’i eithrio o’r holl ymatebion. Sylfaen = 937

Gwybodaeth

- 2.16 Gofynnwyd i’r ymatebwyr am eu gwybodaeth am Sero Net. Dywedodd 63% o’r ymatebwyr eu bod yn gwybod ychydig neu eu bod yn gwybod bryn dipyn a dywedodd 27% o’r ymatebwyr eu bod yn gwybod dim am Sero Net (Tabl 2.7).
- 2.17 Gofynnwyd i’r ymatebwyr am eu gwybodaeth am Addasu i’r Hinsawdd. Dywedodd 56% eu bod yn gwybod ychydig neu eu bod yn gwybod cryn dipyn am Addasu i’r Hinsawdd. Dywedodd 37% eu bod yn gwybod dim am Addasu i’r Hinsawdd. (Tabl 2.7).
- 2.18 Gofynnwyd i’r ymatebwyr am eu gwybodaeth am yr Argyfwng Natur. Dywedodd 56% eu bod yn gwybod ychydig neu eu bod yn gwybod cryn dipyn am yr Argyfwng Natur. Dywedodd 37% eu bod yn gwybod dim am yr Argyfwng Natur (Tabl 2.7).

Tabl 2.7 – Ymateb i – ‘Faint ydych chi’n ei wybod am y canlynol?’

Ymateb	Sero Net*	Addasu i'r Hinsawdd*	Argyfwng Natur*
Rwy'n gwybod dim	27%	37%	37%
Rwy'n gwybod ychydig	39%	36%	34%
Rwy'n gwybod cryn dipyn	24%	20%	22%
Rwy'n gwybod llawer	9%	6%	7%
Byddai'n well gennyf beidio â dweud	1%	1%	1%


Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Champau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb, dim eithriadau. Sylfaen = 939

*Darparwyd diffiniadau o bob term i'r ymatebwyr

Tywydd eithafol

2.19 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi profi unrhyw effaith tywydd eithafol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Dywedodd y mwyafrif (65%) o'r ymatebwyr nad oeddent wedi profi unrhyw un o'r digwyddiadau tywydd eithafol a restrir. Roedd 21% o'r ymatebwyr wedi profi problemau teithio ac roedd 16% o'r ymatebwyr wedi profi llifogydd yn eu hardal.

Ffigur 2.5 – Ymateb i – ‘Ydych chi wedi profi unrhyw un o'r canlynol yn ystod y pum mlynedd diwethaf?’



Disgrifiad o Ffigur 2.5: siart bar yn dangos a oedd ymatebwyr wedi profi unrhyw effeithiau tywydd eithafol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Canfyddiadau ac Agweddau: Crynodeb

- 2.20 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar newid hinsawdd.
- 2.21 Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai gweithgareddau dynol oedd prif achos newid hinsawdd, roeddent yn credu bod newid hinsawdd yn broblem ac yn poeni amdano. Roedd ymatebwyr 65 oed a throsodd yn llai pryderus am newid hinsawdd nag ymatebwyr eraill.
- 2.22 Yn ôl math o ardal, roedd y rhai mewn mathau mwy gwledig o ardaloedd yn neilltuo lefelau is o gyfrifoldeb i'r cyhoedd yn gyffredinol a grwpiau lleol ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd nag ymatebwyr sy'n byw mewn mathau o ardaloedd mwy trefol. Yn yr un modd, roedd ymatebwyr hŷn yn neilltuo lefelau is o gyfrifoldeb ar draws gwahanol grwpiau cymdeithasol na grwpiau oedran eraill.
- 2.23 Roedd yr ymatebwyr o'r farn mai busnesau a gwledydd y tu allan i'r DU oedd yn cymryd y camau lleiaf o'r holl grwpiau i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- 2.24 Dangosodd yr ymatebion fwlch rhwng y graddau yr oedd pobl yn teimlo cyfrifoldeb personol i geisio atal newid hinsawdd rhag gwaethygu, a'r graddau yr oedd pobl yn teimlo y gallai eu gweithredoedd personol eu hunain helpu i atal newid hinsawdd rhag gwaethygu.
- 2.25 Nododd cyfran fawr o ymatebwyr ymwybyddiaeth isel o bynciau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Roedd gan yr ymatebwyr lai o wybodaeth am Addasu i'r Hinsawdd ac Argyfwng Natur nag oedd ganddynt am Sero Net ond ar draws y tri maes, ychydig oedd yn teimlo eu bod yn gwybod llawer.

3. Ynglŷn â'ch cartref

3.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y defnydd o ynni yn eu cartref a'r camau arbed ynni a gymerwyd.

Defnydd ynni

3.2 Nododd 63% o'r ymatebwyr fod ganddynt fesurydd clyfar yn eu cartref. Fodd bynnag, dim ond 43% o'r ymatebwyr a nododd eu bod yn defnyddio eu mesurydd clyfar (Tabl 3.1). Dywedodd 33% o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt fesurydd clyfar.

Tabl 3.1 – Ymateb i – ‘A oes gennych fesurydd clyfar yn eich cartref?’

Dull o dalu	Pob un
Mae gen i fesurydd clyfar ac rwy'n defnyddio'r dangosydd yn y cartref	43%
Mae gen i fesurydd clyfar ond nid wyf yn defnyddio'r dangosydd yn y cartref	14%
Mae gen i fesurydd clyfar ond nid yw'r dangosydd yn y cartref yn gweithio	6%
Nid oes gen i fesurydd clyfar	33%
Ddim yn gwybod	3%
Byddai'n well gennyf beidio â dweud	2%

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. 'Ddim yn gwybod', 'Byddai'n well gennyf beidio â dweud' ac 'Arall' wedi'u cynnwys yn yr ymateb 'Pob un'. Sylfaen = 939

Camau arbed ynni

3.3 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi a oeddent wedi cymryd unrhyw un o'r camau / gweithredoedd a restrir i arbed defnydd ynni (Ffigur 3.1).


3.4 Cafodd y camau arbed ynni eu categoreiddio yn seiliedig ar eu heffaith ar leihau allyriadau carbon. Mae'r gweithredoedd sydd ag effaith uwch yn tueddu i gael effaith uniongyrchol ar wresogi a dŵr poeth, sef y defnyddwyr mwyaf o ynni yn y cartref. Ar gyfartaledd, mae gwresogi'r cartref yn cyfrif am 61% o ddefnydd ynni'r cartref, a dŵr poeth 17% o ddefnydd ynni'r cartref²³. Ystyrir bod sychu dillad yn yr awyr agored neu ar hors ddillad hefyd yn y categori effaith uwch gan fod hyn yn lleihau'r defnydd o sychwyr dillad. Mae sychwyr dillad yn un o'r offerynnau cartref mwyaf ynni-ddwys, dim ond y tu ôl i gawodydd trydan o ran defnydd ynni⁴. Felly gall lleihau'r gweithredoedd hyn gael effaith fawr ar allyriadau carbon.

² Sut mae gwahanol gartrefi yn defnyddio ynni a faint mae'n ei gostio iddynt [Nesta](#)
³ Defnydd ynni yn y DU 2024, Adran Diogelwch Ynni a Sero Net [Defnydd ynni yn y DU 2024 - GOV.UK](#)
⁴ Energy Guide [Which Appliances Use The Most Electricity? \(2025\)](#)

- 3.5 Mae'r camau gweithredu llai effeithiol yn tueddu i gael effeithiau mwy cymedrol ar ddefnydd ynni yn y cartref, er enghraifft drwy leihau'r angen am wresogi yn anuniongyrchol drwy ganiatáu i olau haul ddod i mewn. Y cam mwyaf cyffredin i arbed ynni yw diffodd goleuadau nad ydynt yn cael eu defnyddio, ond dim ond 3% o ddefnydd ynni cartref sy'n cael ei gyfrif am oleuadau²³. Ar gyfer offer nad ydynt yn cael eu defnyddio neu mewn modd wrth gefn, mae'r defnydd o bŵer yn gymharol fach⁵ ond gall gronni os yw sawl dyfais yn segur am amser hir ond gall gronni os yw sawl dyfais yn segur am amser hir. Mae'n bwysig nodi y gall camau gweithredu 'effaith is' gael effaith fawr o hyd os cânt eu cynnal yn aml dros gyfnod hir.
- 3.6 O'r camau gweithredu llai effeithiol, y rhai mwyaf cyffredin a gymerwyd oedd diffodd y goleuadau (roedd 85% o'r ymatebwyr yn gwneud hyn), ac yna gwisgo dillad cynhesach (66%) (Ffigur 3.1).
- 3.7 O'r camau gweithredu ag effaith uwch, y rhai mwyaf cyffredin a gymerwyd oedd sychu dillad yn yr awyr agored neu ar hors ddillad (66%) ac yna gostwng y thermostat (54%).
- 3.8 Roedd y camau gweithredu lleiaf cyffredin a gymerwyd i gyd ag effaith uwch. Gostwng tymheredd y dŵr poeth (34%), lleihau tymheredd llif y boeler (28%) a diffodd yr opsiwn cynhesu ymlaen llaw ar foeler cyfun (14%).

⁵ [Framework for Phantom Load Management](#), Adroddiad Dichonoldeb, Coleg Imperial Llundain

Ffigur 3.1 – Ymatebion i – ‘A ydych chi wedi cymryd unrhyw un o’r camau canlynol i leihau eich defnydd ynni?’



Disgrifiad o Ffigur 3.1: siart bar sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr sy'n ymgymryd â chamau arbed ynni yn y cartref.

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. 'Arall', 'Dim o'r uchod', 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gennyf beidio â dweud' wedi'u heithrio o'r ymateb cam Ynni. Sylfaen = 939

- 3.9 Dangosodd dadgyfuniad o ymatebion yn ôl incwmaelwyd, ymhlith y rhai a oedd yn well ganddynt beidio â rhoi incwm eu haelwyd, fod cyfran is yn defnyddio camau arbed ynni o'i gymharu â'r rhai a nododd incwm eu haelwyd.
- 3.10 Y nifer cyfartalog o gamau a gymerwyd gan ymatebwyr a oedd yn well ganddynt beidio â datgan incwm eu cartref oedd 1.7 (allan o 6) ar gyfer camau effaith uwch a 4.1 (allan o 8) ar gyfer camau effaith is (Tabl 3.2). Roedd nifer cyfartalog y camau

gweithredu a gymerwyd gan ymatebwyr a nododd incwm eu cartref rhwng roedd £20,000 i £49,000 a £50,000 neu uwch 2.5 a 2.7 (allan o 6) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a rhwng 4.7 a 5.0 (allan o 8) ar gyfer camau gweithredu effaith is.

Tabl 3.2 – Ymatebion fesul incwm aelwyd i – ‘A ydych chi wedi cymryd unrhyw un o’r camau canlynol i leihau eich defnydd ynni?’

Ymateb	Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 6)	Effaith is (cyfartaledd allan o 8)
Hyd at £19,999	2.6	4.6
£20,000 i £49,999	2.5	4.7
£50,000+	2.7	5.0
Byddai’n well gennyf beidio â dweud	1.7	4.1
Pob un	2.4	4.7

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Charnau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Arall’, ‘Dim o’r uchod’, ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’u heithrio o’r ymateb cam Ynni, ‘Ddim yn gwybod’ wedi’i eithrio o’r ymateb Incwm aelwydydd. *Sylfaen = 891 (Hyd at £19,999 = 189, Rhwng £20,000 a £49,999 = 363, £50,000+ = 183, Byddai’n well gennyf beidio â dweud = 156).*

- 3.11 Mae cymharu'r camau arbed ynni yn ôl ymateb yr ymatebwyr i'r hyn yr oeddent yn credu yr achosodd newid hinsawdd, yn dangos bod yr ymatebwyr a ddywedodd fod newid hinsawdd wedi'i achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan weithgareddau dynol yn ymgymryd â nifer uwch o gamau gweithredu na'r holl ymatebwyr eraill (Tabl 3.3).
- 3.12 Y nifer cyfartalog o gamau a gymerwyd gan ymatebwyr a ddywedodd fod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan weithgareddau dynol oedd 2.6 (allan o 6) ar gyfer camau effaith uwch a 5.1 (allan o 8) ar gyfer camau effaith is (Tabl 3.3). I'r ymatebwyr a ddywedodd fod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan brosesau naturiol, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is, 2.3 ar gyfer effaith uwch, a 4.2 ar gyfer effaith is.

Tabl 3.3 – Ymatebion fesul incwm aelwyd i – ‘A ydych chi wedi cymryd unrhyw un o’r camau canlynol i leihau eich defnydd ynni?’

Ymateb	Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 6)	Effaith is (cyfartaledd allan o 8)
Dydw i ddim yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd	1.3*	2.5*
Yn gyfan gwbl/yn bennaf drwy brosesau naturiol	2.3	4.2
Yn gyfartal drwy brosesau naturiol a gweithgareddau dynol	1.9	4.0
Yn gyfan gwbl/yn bennaf drwy weithgareddau dynol	2.6	5.1
Pob un	2.4	4.7

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Arall’, ‘Dim o’r uchod’, ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’u heithrio o’r ymateb cam Ynni. Sylfaen = 902 (Dydw i ddim yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd = 13, Yn gyfan gwbl/yn bennaf drwy brosesau naturiol= 150, Tua'r un faint drwy brosesau naturiol a gweithgareddau dynol = 163, Yn gyfan gwbl/yn bennaf gan weithgareddau dynol= 576)

* Maint y sylfaen llai na 30 o ymatebwyr. Dylid dehongli canlyniadau yn ofalus.

3.13 Mae dadgyfuno'r camau arbed ynni yn ôl ymateb yr ymatebwyr i faint roeddent yn meddwl bod newid hinsawdd yn broblem, yn dangos bod yr ymatebwyr a ddywedodd fod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol yn ymgymryd â mwy o gamau na'r rhai a oedd yn meddwl nad oedd yn broblem ddifrifol (Tabl 3.4).

3.14 Y nifer cyfartalog o gamau a gymerwyd gan ymatebwyr a ddywedodd fod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol oedd 3.0 (allan o 6) ar gyfer camau effaith uwch a 5.6 (allan o 8) ar gyfer camau effaith is (Tabl 3.4). I'r ymatebwyr a ddywedodd nad yw newid hinsawdd yn broblem ddifrifol, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is, 1.8 ar gyfer effaith uwch, a 3.2 ar gyfer effaith is.

Tabl 3.4 – Ymateb yn ôl maint y newid hinsawdd fel problem i – ‘Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o’r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?’

Ymateb	Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 6)	Effaith is (cyfartaledd allan o 8)
1-2 Ddim yn ddifrifol	1.8	3.2
3-5	2.1	4.2
6-8	2.1	4.2
9-10 Difrifol iawn	3.0	5.6
Pob un	2.4	4.7

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Arall’, ‘Dim o’r uchod’, ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’u heithrio o’r ymateb cam Ynni. Sylfaen = 912 (9-10 Difrifol iawn = 329, 6-8 = 387, 3-5 = 140, 1-2 Ddim yn ddifrifol = 50))

- 3.15 Mae cymharu'r camau arbed ynni yn ôl ymateb i faint maen ymatebwyr poeni'r am newid hinsawdd, yn dangos bod yr ymatebwyr a oedd yn bryderus iawn neu'n eithaf pryderus am newid hinsawdd yn ymgymryd â mwy o gamau na'r rhai nad oeddent yn bryderus iawn neu ddim o gwbl.
- 3.16 Y nifer cyfartalog o gamau a gymerwyd gan ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn bryderus iawn neu'n eithaf pryderus am newid hinsawdd oedd 2.7 (allan o 6) ar gyfer camau gweithredu effaith uwch a 5.1 (allan o 8) ar gyfer camau gweithredu effaith is (Tabl 3.5). I'r ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn poeni llawer neu ddim o gwbl am newid hinsawdd, roedd nifer cyfartalog y camau gweithredu yn is, 1.9 ar gyfer effaith uwch, a 3.8 ar gyfer effaith is.

Tabl 3.5 – Ymateb yn ôl pryder am newid hinsawdd i – ‘Ydych chi wedi cymryd unrhyw un o'r camau canlynol i leihau eich defnydd o ynni?’

Ymateb	Effaith Uwch (cyfartaledd allan o 6)	Effaith is (cyfartaledd allan o 8)
Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn bryderus o gwbl	1.9	3.8
Pryderus iawn / Eithaf pryderus	2.7	5.1
Pob un	2.4	4.7

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Arall’, ‘Dim o'r uchod’, ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai'n well gennyf beidio â dweud’ wedi'u heithrio o'r ymateb cam Ynni, ‘Ddim yn gwybod’ wedi'i eithrio o'r ymateb Incwm aelwydydd. Sylfaen = 915 (Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn bryderus o gwbl = 292, Pryderus iawn / Eithaf pryderus = 623).


Effeithlonrwydd ynni

- 3.17 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa fesurau effeithlon o ran ynni oedd ganddynt yn eu cartref (Ffigur 3.2).
- 3.18 Y mesurau mwyaf cyffredin sy'n arbed ynni oedd bylbiau golau sy'n arbed ynni (65%) a phen cawod sy'n arbed dŵr (17%).
- 3.19 Y mesurau effeithlonrwydd ynni lleiaf cyffredin oedd switshis amseru ar oleuadau (7%) a ffilmiau ffenestr solar neu wres (1%).
- 3.20 Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr gyda'r incwm aelwydydd uchaf wedi mabwysiadu mesurau effeithlon o ran ynni o'i gymharu â'r rhai sydd ag incwm aelwydydd is. Er enghraifft, roedd gan 13% o'r ymatebwyr yr oedd eu hincwm cartref yn £50,000 neu'n uwch wresogi craff, o'i gymharu â 6% o'r ymatebwyr yr oedd eu hincwm aelwyd hyd at £19,999. Yn yr un modd, roedd gan 15% o'r ymatebwyr yr oedd eu

hincwm cartref yn £50,000 neu uwch oleuadau clyfar, o'i gymharu â 9% o'r ymatebwyr yr oedd eu hincwm aelwyd hyd at £19,999.

- 3.21 Roedd yr ymatebwyr ag incwm aelwyd is yn fwy tebygol o ddweud nad oedd ganddynt yr un o'r mesurau arbed ynni o'i gymharu ag ymatebwyr gyda'r incwm uchaf. Er enghraifft, dywedodd 28% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd hyd at £19,999 nad oedd ganddynt yr un o'r mesurau o'i gymharu â 20% o'r ymatebwyr yr oedd incwm eu haelwyd yn £50,000 neu uwch.

Ffigur 3.2 – Ymateb yn ôl incwm aelwyd i – ‘Isod ceir rhestr o fesurau effeithlonrwydd ynni eraill. Pa rai, os o gwbl, sydd gennych chi yn eich cartref?’



Disgrifiad o Ffigur 3.2: siart bar clystyrog sy'n dangos cyfran yr ymatebwyr yn ôl incwm aelwyd gyda mesurau effeithlonrwydd ynni.

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. 'Ddim yn gwybod' a 'Byddai'n well gennyf beidio â dweud' wedi'u heithrio o'r ymateb cam Ynni, 'Ddim yn gwybod' wedi'i eithrio o'r ymateb Incwm aelwydydd. Sylfaen = 891 (Hyd at £19,999 = 189, Rhwng £20,000 a £49,999 = 363, £50,000+ = 183, Byddai'n well gennyf beidio â dweud = 156)

Ynglŷn â'ch Ynni Cartref Crynodeb

- 3.22 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y defnydd o ynni yn y cartref a'r camau arbed ynni a gymerwyd.
- 3.23 Nododd 63% o'r ymatebwyr fod ganddynt fesurydd clyfar yn eu cartref, ond dim ond 43% oedd yn ei ddefnyddio'n.
- 3.24 Mae'r ymatebwyr sy'n credu bod newid hinsawdd yn cael ei achosi'n llwyr neu'n rhannol gan weithgareddau dynol, sy'n meddwl bod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol, neu sy'n poeni am newid hinsawdd, yn cyflawni mwy o gamau arbed ynni nag ymatebwyr eraill.
- 3.25 Roedd gan gyfran fwy o ymatebwyr ag incwm aelwyd uwch fesurau effeithlon o ran ynni yn eu cartref na'r rhai ag incwm aelwyd is, yn enwedig mesurau goleuo a gwresogi clyfar.

4. Bwyd

4.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu defnydd bwyd personol ac yn y cartref.

Deiet

4.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor aml roeddent yn bwyta cynnyrch llaeth, cig coch, cig gwyn, pysgod / bwyd môr, a ffrwythau a llysiau. Roedd yr ymatebwyr yn bwyta ffrwythau a llysiau (97% o leiaf unwaith yr wythnos) a chynnyrch llaeth (93% o leiaf unwaith yr wythnos) yn amlach na chig gwyn (84% o leiaf unwaith yr wythnos), cig coch (66% o leiaf unwaith yr wythnos) a physgod/bwyd môr (62% o leiaf unwaith yr wythnos) (Tabl 4.1). Y mathau mwyaf cyffredin o fwyd na chawsant eu bwyta oedd pysgod/bwyd môr (12% o'r ymatebwyr) a chig coch (11% o'r ymatebwyr).

Tabl 4.1 – Ymateb i – ‘Sawl diwrnod yr wythnos ydych chi fel arfer yn bwyta pob un o'r pethau canlynol?’

Amllder	Cynnyrch Llaeth	Cig Coch	Cig Gwyn	Pysgod / Bwyd Môr	Ffrwythau / Llysiau
Bob dydd	67%	3%	4%	1%	60%
Rhwng 5 a 6 diwrnod yr wythnos	12%	5%	12%	3%	17%
Rhwng 3 a 4 diwrnod yr wythnos	9%	21%	36%	13%	13%
Rhwng 1 a 2 diwrnod yr wythnos	5%	37%	32%	45%	7%
Llai nad unwaith yr wythnos	2%	22%	7%	24%	2%
Byth	3%	11%	8%	12%	0%
Ddim yn gwybod	0%	1%	0%	1%	0%
Byddai'n well gennyf beidio â dweud	1%	1%	1%	1%	1%

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Gofynnwyd y cwestiynau i bawb, dim eithriadau. Sylfaen = 939

4.3 Bydd lleihau'r cig coch, cig gwyn a chynnyrch llaeth a fwyteir, dewis ffynonellau cynaliadwy o bysgod / bwyd môr, a chynyddu'r ffrwythau a llysiau a fwyteir yn cael effaith gadarnhaol ar newid hinsawdd drwy leihau allyriadau carbon⁶.

⁶ Hannah Ritchie (2020) - "The carbon footprint of foods: are differences explained by the impacts of methane?" [Our World in Data](#)

- 4.4 Gellir dosbarthu'r newidiadau hyn i gamau dietegol yn seiliedig ar eu heffaith ar leihau allyriadau carbon. Mae effaith y camau hyn yn amrywio yn dibynnu ar ba mor ddwys o ran adnoddau a charbon yw'r bwyd yn ei gynhyrchu, yn enwedig o ran ôl troed carbon cynhyrchion o anifeiliaid o'i gymharu â bwydydd o blanhigion.
- 4.5 Mae gostyngiad yn y cig coch, cynnyrch llaeth a chig gwyn a fwyteir fel arfer yn cael effaith uwch neu ganolig-uchel (cig gwyn) ar leihau allyriadau carbon.
- 4.6 Mae gostyngiad yn y pysgod neu fwyd môr a fwyteir fel arfer yn cael llai o effaith ar allyriadau carbon. Mae hyn oherwydd bod pysgod a bwyd môr yn gyffredinol yn defnyddio llai o garbon na phroteinau anifeiliaid eraill, ond mae amrywiad yn yr effaith yn dibynnu ar y math o bysgod a bwyd môr⁷.
- 4.7 Mae cynnydd yn y ffrwythau a llysiau a fwyteir fel arfer yn cael llai o effaith ar allyriadau carbon gan nad yw'n dynodi gostyngiad yn uniongyrchol yn y defnydd o fwydydd sy'n defnyddio llawer o garbon.
- 4.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi gwneud unrhyw un o bum newid i'w diet. Y newidiadau oedd lleihau cynnyrch llaeth, lleihau cig coch, lleihau cig gwyn, lleihau pysgod a chynyddu ffrwythau a llysiau.
- 4.9 Mae dadgyfuno'r newidiadau i ddeiet yn ôl ymateb yr ymatebwyr i faint roeddent yn meddwl bod newid hinsawdd yn broblem, yn dangos cyfran uwch o ymatebwyr a ddywedodd fod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol yn ymgymryd â mwy o newidiadau i'w deiet na'r rhai a oedd yn meddwl nad oedd yn broblem ddifrifol. O'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn credu bod newid hinsawdd yn broblem ddifrifol iawn, dywedodd 49% eu bod wedi lleihau eu defnydd o gig coch, o'i gymharu â 13% o'r ymatebwyr a oedd yn credu nad oedd newid hinsawdd yn broblem ddifrifol (Tabl 4.2).

⁷ Gall bwyta bwyd môr leihau eich ôl troed carbon, ond mae rhai pysgod yn well nag eraill [Oceana](#).

Tabl 4.2 – Ymateb yn ôl maint y newid hinsawdd fel problem i – ‘A ydych wedi gwneud unrhyw un o'r newidiadau canlynol i'ch diet?’

	Effaith uwch		Canolig - Uchel	Effaith is	
Ymateb	Lleihau Cynnyrch Llaeth	Lleihau Cig Coch Cig	Lleihau Cig Gwyn	Lleihau Pysgod / Bwyd Môr	Cynyddu Ffrwythau / Llysiau
1-2 Ddim yn ddifrifol	14%	13%	9%	7%	14%
3-5	10%	27%	11%	14%	26%
6-8	14%	34%	15%	11%	29%
9-10 Difrifol iawn	28%	49%	31%	22%	42%
Pob un	18%	37%	20%	15%	32%

Ffynhonnell Arolwg Canfyddiadau a Chamau Gweithredu Newid Hinsawdd, Cam 3 2024. Dewis lluosog. Cwestiynau a ofynnwyd i bawb. ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Byddai’n well gennyf beidio â dweud’ wedi’u heithrio o’r ymateb i’r broblem newid hinsawdd. Sylfaen = 912 (9-10 Difrifol iawn = 329, 6-8 = 387, 3-5 = 140, 1-2 Ddim yn ddifrifol = 56)

- 4.10 Mae dadgyfuno'r newidiadau i ddeiet yn ôl pryder yr ymatebwyr am newid hinsawdd, yn dangos bod yr ymatebwyr a oedd yn bryderus iawn neu'n eithaf pryderus am newid hinsawdd wedi gwneud mwy o newidiadau i'w deiet na'r rhai nad oeddent yn bryderus iawn neu ddim o gwbl. O'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn bryderus iawn / yn eithaf pryderus am newid hinsawdd, roedd cyfran fwy ohonynt wedi gwneud newidiadau i'w deiet o'i gymharu ag ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn poeni am newid hinsawdd.
- 4.11 Fel enghraifft, o'r ymatebwyr a oedd yn bryderus iawn / yn eithaf pryderus am newid hinsawdd, roedd 43% wedi lleihau faint o gig coch maent yn ei fwyta, o'i gymharu â 24% o'r ymatebwyr nad oeddent yn bryderus iawn / ddim yn bryderus o gwbl (Tabl 4.3). Y newidiadau i ddeiet y dywedodd y nifer fwyaf o ymatebwyr eu bod wedi'u gwneud oedd lleihau cig coch (37%) a bwyta mwy o ffrwythau a llysiau (32%).

Tabl 4.3 – Ymateb yn ôl pryder am newid hinsawdd i – ‘A ydych wedi gwneud unrhyw un o’r newidiadau canlynol i’ch deiet?’


Ymateb	Effaith Uwch		Canolig - Uchel	Effaith is	
	Lleihau Cynnyrch Llaeth	Lleihau Cig Coch Cig	Lleihau Cig Gwyn	Lleihau Pysgod / Bwyd Môr	Cynyddu Ffrwythau / Llysiau
Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn bryderus o gwbl	11%	24%	10%	9%	23%
Pryderus iawn / Eithaf pryderus	22%	43%	23%	18%	37%
Pob un	18%	37%	19%	15%	32%

